

ADFERIAD RECOVERY

# Ein Heffaith

## Adolygiad Blynyddol 2021 - 2022



# Cynnwys


- Ein Gwerthoedd, Ein Cenhadaeth
- Neges gan Gadeirydd ein Hymddiriedolwyr
- Adolygiad o'r Flwyddyn, Neges gan ein Prif Weithredwr
- Dod yn Fudiad Sy'n 'Atgyfnerthu Hawliau'
- Ein Haelodau
- Ein Staff
- Ein Gwirfoddolwyr
- Blwyddyn mewn Rhifau
- Ein Gwasanaethau
- Datblygiadau Newydd yn 2021/2022
- Ein Hymgyrch
- Ein Partneriaethau
- Edrych Tuag At y Dyfodol
- Adolygiad a Datganiadau Ariannol


ADFERIAD RECOVERY

# Ein Gwerthoedd

## Gweithio Gyda’n Gilydd
## Ymrwymiad at Ofal a Chymorth o Safon
## Dysgu a Myfyrio
## Urddas a Pharch

Mae Adferiad Recovery yn cyfuno sgiliau ac arbenigedd yr elusennau a ddaeth at ei gilydd er mwyn ei sefydlu fel bod modd darparu gwasanaeth rhagorol a hyblyg i bobl yng Nghymru sydd â phroblemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a’r rhai hynny sydd ag anghenion cymhleth ac sydd yn cyd-ddigwydd. Rydym yn fudiad sydd yn cael ei arwain gan ddefnyddwyr a gofalwyr, gan ddarparu ystod eang o wasanaethau wedi’u personoli ar gyfer ein buddiolwyr. Rydym yn ceisio gwneud newidiadau positif ym mywydau'r bobl hynny sydd wedi eu heffeithio gan gyffuriau, alcohol, problemau iechyd meddwl a heriau eraill bywyd, a hynny drwy gyfrwng ystod o wasanaethau a chymorth sydd yn cael eu darparu gan staff sgilgar a phrofiadol, yn y gred bod pobl yn gallu ac yn newid. Mae Adferiad Recovery yn darparu ymateb newydd, hyblyg ac sydd wedi’i gydlynu i'r amgylchiadau eithriadol a wynebir gan bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl sy’n cyd-ddigwydd a chyflyrau camddefnyddio sylweddau a phroblemau perthnasol eraill. Mae pobl fregus sydd yn wynebu heriau bywyd cymhleth angen cymorth cyson a di-dor er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ymgysylltu gyda’r gwasanaethau iechyd a lles – a’u hatal rhag dod yn ddifreintiedig ac wedi eu hynysu. Mae Adferiad Recovery yn meithrin talent a phrofiad nifer o elusennau sefydledig ac amlwg yng Nghymru, sef CAIS, Hafal, WCADA ac Adferiad Recovery CIO. Mae ein harbenigedd cyfun ym meysydd camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, tai, cyfiawnder troseddol a chymorth gyda cyflogaeth, oll yn caniatáu Adferiad Recovery i ddiwallu anghenion ein pobl fwyaf bregus gyda dulliau gwaith sengl, unedig a chynhwysfawr.



# Ein Hamcanion

- Mae ein model therapiwtig cynhwysfawr a chydlynus yn defnyddio’r arferion gorau posib o ran gwasanaethau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, cyfiawnder troseddol a gwasanaethau eraill. Mae tîm cyfun Adferiad yn gweithio’n holistaidd er mwyn diwallu anghenion pob un cleient, gan greu’r amodau gorau ar gyfer triniaeth effeithiol sy’n delio gyda chyflyrau sy’n cyd-ddigwydd a diagnosis deublyg.
- Rydym yn gweithio gyda’n cleientiaid er mwyn ymgysylltu â hwy a’u cefnogi drwy eu hadferiad. Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau eu bod yn helpu’i gilydd, cynllun mentora cymheiriaid a dulliau presgripsiynu cymdeithasol er mwyn helpu pobl i gymryd rheolaeth o’u bywydau a’n creu eu cynlluniau eu hunain ar gyfer adferiad a’n gweithio tuag at annibyniaeth a ffyniant.
- Rydym yn gweithio ar draws rhwystrau er mwyn elwa ein cleientiaid. Rydym yn datblygu partneriaethau gyda chomisiynwyr, cyd-ddarparwyr, ymarferwyr ac ymchwilwyr sydd yn rhannu ein huchelgais i drawsnewid

# Ein Cenhadaeth

- Yn darparu cymorth, rhyddhad a thriniaeth i bobl sydd yn dioddef yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol o broblemau sydd yn ymwneud gydag iechyd meddwl a lles emosiynol, salwch, oedran, arwahanrwydd cymdeithasol neu anweithgarwch economaidd.
- Yn darparu triniaeth, gofal a chymorth i bobl sydd yn dioddef yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol o broblemau sydd yn ymwneud gydag alcohol neu gamddefnyddio cyffuriau a dibyniaethau eraill.
- Yn cefnogi’r gwaith o atal camddefnyddio alcohol a chyffuriau drwy gyfrwng gwasanaethau ar gyfer y sawl sydd yn dioddef o gamddefnyddio sylweddau, caethiwed neu ddibyniaethau eraill.
- Darparu addysg a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr yn y maes.
- Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus o effaith dibyniaeth a chamddefnyddio sylweddau, cymhlethdodau iechyd meddwl a materion sydd yn cyd-ddigwydd.
- Cynghori ac eirioli ar ran pobl sydd yn dioddef anfanteision yn sgil problemau a achosir gan alcohol, cyffuriau, camddefnyddio cyffuriau a dibyniaethau eraill, anabledd, salwch, oedran neu arwahanrwydd cymdeithasol.

# Ein Datganiad Cenhadaeth

*“Mae Adferiad Recovery yn ymateb i anghenion pobl sydd yn wynebu ystod o gyflyrau iechyd sy’n cyd-ddigwydd ac amgylchiadau cymdeithasol cymhleth – pobl sydd prin yn cael eu gweld a’u clywed”*

# Neges gan Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr

## Clive Wolfendale

Mae Adroddiad Effaith cyntaf Adferiad Recovery yn amlinellu'r gwaith anhygoel y mae'r Elusen wedi gwneud yn ystod ei blwyddyn gyntaf yn gweithredu. Mae Adferiad Recovery yn darparu gwasanaethau hanfodol, sydd yn achub bywydau a'n cyfoethogi bywydau llawer o'n buddiolwyr, a hynny'n seiliedig ar eu hanghenion, yr hyn y maent yn ffafrio a'u blaenoriaethau. Rydym yn cael ein harwain gan y bobl sydd yn defnyddio ein gwasanaethau a'u gofalwyr a'u teuluoedd, ac rwyf felly yn falch iawn i arwain Bwrdd o Ymddiriedolwyr sydd yn cynrychioli'r mudiad ac yn eirioli'n gryf yn gyhoeddus ar ran pobl sydd yn profi heriau bywyd cymhleth. Mae'r daith y bu'r mudiad arni dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol, a hynny o ran dwyn ynghyd y pedair elusen a goresgyn cymhlethdodau pandemig byd eang Covid-19. Ond fel yr ydych yn medru gweld o'r adroddiad hwn, rydym wedi cael llwyddiant sylweddol.

Tra bod nifer o wasanaethau eraill wedi eu cau yn ystod y pandemig, neu wedi eu darparu mewn ffyrdd mwy cyfyngedig, roedd ein tîm wedi parhau i fwrw ati i ddarparu cymorth wyneb i wyneb drwy gydol hyn oll. Roedd ystod o ddulliau gwaith arloesol a hyblyg wedi eu datblygu er mwyn sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn derbyn y cymorth yr oeddynt angen ac roedd Ymddiriedolwyr, drwy'r uwch staff, wedi gwneud eu gorau i sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi, yn derbyn yr adnoddau yr oeddynt angen ac yn cael eu gwerthfawrogi am eu holl ymdrechion.
Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio - a'r rhyddhad a brofwyd pan ddaeth diwedd ar y cyfarfodydd fideo - roeddem wedi cynnal 25 digwyddiad ar draws Cymru ac yn Sir Gaerhirfryn er mwyn cwrdd gyda chleientiaid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd, er mwyn dathlu'r mudiad newydd. Roedd yn brofiad gwych i gwrdd â chynifer o bobl yn y digwyddiadau yma a'n diwrnodau lles corfforol. Roeddwn wedi gwerthfawrogi'r amser a gefais yn siarad gyda chleientiaid, teuluoedd a staff am eu profiadau yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Yn 2021-2022, roedd ein buddiolwyr, staff, a rhanddeiliaid wedi datblygu strategaeth am y tair blynedd nesaf, yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y mudiad. Ein hamcanion allweddol yw sicrhau bod ein buddiolwyr yn cael eu clywed a'u parchu ac wrth wraidd y gwaith o arloesi gwasanaethau, ymchwil a gwerthuso, a'n bod yn ceisio sicrhau safon o ran pob dim a wnawn. Mae'r strategaeth hon ar gael i'w gweld ar ein gwefan.

*""Tra bod nifer o wasanaethau eraill ar gau yn ystod y pandemig (...), roedd ein tîm ni wedi parhau i fwrw ati"*

Mae Adferiad Recovery wedi cael effaith hefyd wrth i ni ymgysylltu gyda Gweinidogion, Aelodau'r Senedd, Aelodau Senedd San Steffan, Cynghorwyr a rhanddeiliaid yn ein digwyddiadau a hefyd wrth iddynt ymweld gyda'n prosiectau, sesiynau briffio a thrwy ein cyfryngau cymdeithasol a'n cyhoeddiadau. Rydym yn bwriadu ymgysylltu hyd yn oed yn fwy dros y blynyddoedd nesaf ac yn mynd i barhau i chwarae ein rhan yn codi dyheadau, ac yn arwain ar wasanaethau sydd wedi eu cyd-greu ac yn ffocysu ar gleientiaid a chanlyniadau.

Tra ein bod yn falch iawn o'r hyn yr ydym wedi cyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau y mae'r argyfwng costau byw wedi eu creu ar gyfer y wlad gyfan. Rydym yn bryderus iawn am ein buddiolwyr dros y flwyddyn nesaf ac yn mynd i sicrhau bod ein hegni a'n adnoddau yn helpu'r sawl sydd a'r anghenion mwyaf yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Yn olaf, hoffem ddiolch i'n tîm o staff a'r gwirfoddolwyr rhagorol yn Adferiad Recovery, fy nghyd Ymddireiolwyr, ein hasiantaethau partner a'r mudiadau hynny sydd wedi darparu'r adnoddau i ni fel ein bod yn medru cyflawni gymaint.





# Neges gan y Prif Weithredwr

**Alun Thomas**

## Adolygiad o'r Flwyddyn

Dyma'r flwyddyn weithredol lawn gyntaf ar gyfer Adferiad Recovery fel Elusen newydd ei sefydlu ac roedd yn dilyn effaith fyd-eang ddigynsail Covid-19. Roedd yr elusennau sydd yn rhan o Adferiad Recovery wedi gwneud gwaith rhagorol yn ystod y cyfnodau mwyaf heriol drwy'r pandemig, gan ddarparu gwasanaethau amrywiol a dwyster uwch i'r sawl a oedd yn anffodus yn derbyn llai o gymorth nag arfer am fod asiantaethau eraill wedi cau eu drysau. Roeddem yn falch i fod yn fudiad a oedd wedi parhau gyda'i waith i gyd bron, er mewn ffyrdd gwahanol, ac rwy'n credu bod hyn wedi achub llawer o fywydau.

Roedd yr elusennau yn cael eu huno pan ddaeth y pandemig, ac yn dilyn adolygiadau ac asesiadau risg sylweddol, penderfynwyd parhau ar y daith ac roedd hyn yn golygu ein bod mewn lle da i gefnogi ein buddiolwyr wrth i ni gyd ddod dros effaith y pandemig. Roedd ein buddiolwyr ymhlith y rhai a oedd wedi eu heffeithio fwyaf yn ystod y cyfnod hwn ond roedd rhai o'r datrysiadau cenedlaethol, fel yr ymgais i atal digartrefedd ar y strydoedd, yn dangos ein bod ni fel cymdeithas yn medru mynd i'r afael gyda'r heriau yma os ydym am wneud hyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Adferiad Recovery wedi parhau i ehangu ein gwasanaethau ac mae llawer o hyn yn ymwneud gyda darparu llety â chymorth sy'n ddiogel – y cam cyntaf fel arfer tuag at adferiad cynaliadwy.

Mae effaith y pandemig dal yn cael ei brofi gan ein buddiolwyr a'r heriau a wynebir gan y GIG a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol wrth iddynt geisio ail-ddechrau eu gwasanaethau ar ôl y pandemig ac mae hyn yn golygu mai ond ein gwasanaethau ni sydd ar gael i gleientiaid heb iddynt orfod aros am gyfnodau ar restrau aros hir. Rydym yn cydnabod fod hyn yn debygol o barhau am y ddwy flynedd nesaf a mwy ac rydym yn ymgyrchu gyda phartneriaid yn y sector statudol ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn gwella gwasanaethau.

Ni fyddai uno'r elusennau wedi medru digwydd mor llwyddiannus oni bai am dri grŵp o bobl. Y grŵp cyntaf yw'r Ymddiriedolwyr o'r pedair elusen wreiddiol am gydnabod gweledigaeth, buddion a'r pwysigrwydd o weithio gyda'i gilydd. Roedd Ymddiriedolwyr wedi gosod buddiannau buddiolwyr yn gyntaf yn hytrach na phlwyfoldeb y mudiadau ac wedi ymrwymo i greu mudiad sydd yn ceisio cynorthwyo'r person yn ei gyfanrwydd ac nid delio gyda'r 'twll' sydd yn y person. Mae pobl yn cael eu hel i ffwrdd o'r gwasanaethau yn aml am eu bod yn profi mwy nag un her: mae Adferiad Recovery yno ar gyfer pobl, nid eu diagnosis yn unig. Roedd Ymddiriedolwyr y pedwar mudiad wedi cynrychioli barn a dyheadau buddiolwyr yr Elusennau ac wedi sicrhau bod y canlyniad yn ffocysu ar ddarparu mwy i'n cleientiaid.

Yr ail grŵp oedd yr uwch dimau yn yr Elusennau a oedd wedi gweithio'n ddiflino a heb unrhyw ddisgwyliadau er mwyn gweithredu dyheadau'r Ymddiriedolwyr. Roedd hyn wedi ei gyflawni wrth barhau i gynnig y genhadaeth, a hoffem ddiolch yn bersonol i'r tîm am yr holl gefnogaeth yr oeddynt wedi rhoi i mi.

Y trydydd grŵp yw'r tîm yn Allen ac Overy LLP a oedd wedi darparu lefel anhygoel o gyngor cyfreithiol, canllawiau a chymorth, a hynny heb unrhyw gost i'r Elusen ac nid oes modd gorbwysleisio eu cyfraniad.

Fel y medrwch weld o'r adroddiad hwn, mae gwaith

Adferiad Recovery dros y deuddeg mis diwethaf wedi bod yn anhygoel ac mae'r Adroddiad Effaith hwn yn un o nifer o gyhoeddiadau yr ydym yn bwriadu cyhoeddi er mwyn rhannu a hyrwyddo ein modelau o wasanaeth a'r effeithiolrwydd a'r gwerth cymdeithasol a ddaw o weithio gyda'r Trydydd Sector.

Mae'r ffaith bod Adferiad Recovery fel elusen newydd yn llwyddo i ddarparu gwasanaethau safon uchel, yn ehangu'n gyflym ac yn fudiad mor gryf, i'w briodoli i'n tîm o staff sgilgar a'n gwirfoddolwyr. Mae'n fraint i arwain y fath bobl ac rwyf yn gwybod y bydd y mudiad yn mynd o nerth i nerth.

# Dod yn Fudiad Sy'n Atgyfnerthu Hawliau

***C. Beth mae'n golygu i fod yn fudiad sy'n atgyfnerthu hawliau?***

**A. Mae mudiad sy'n atgyfnerthu hawliau yn ceisio amddiffyn unigolion drwy;**

- **annog cydraddoldeb ac amrywiaeth,**
- **dileu unrhyw wahaniaethau anghyfreithlon, ac**
- **amddiffyn a hyrwyddo hawliau dynol pobl**

Fel mudiad sydd yn ffocysu ar bobl, rhaid i ni sicrhau bod hawliau unigolion ar flaen ein meddyliau ym mhob dim a wnawn. Ond nid yw hyn yn ddigon: fel mudiad sydd yn ymgyrchu, yn gyfrwng i rannu barn ein buddiolwyr, ac fel cyflogwr mawr, mae dyletswydd foesol gennym. Fel elusen, mae dyletswydd budd cyhoeddus gennym i wneud mwy na chydymffurfio gyda'r isafswm yn unig.

Yn Rhagfyr 2021, roedd Adferiad Recovery wedi cyhoeddi ein Datganiad Gwrth-Hiliaeth ac rydym yn parhau i weithio tuag at sicrhau Ardystiad Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru.

Yn fwy diweddar, roeddem wedi cynnal cynhadledd ar gyfer holl staff Adferiad ar sut ein bod am ddod yn fudiad sydd yn atgyfnerthu hawliau. Roedd nifer o siaradwyr gwadd arbennig wedi ymuno gyda ni gan gynnwys y nyrs gofrestredig Nesta Williams, Geraint Rees a Nathan Owen o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Suzanne Duval a Dr. Charles Willie o Diverse Cymru, a Dr. Rhian Croak o Ganolfan Gyfreithiol Plant Cymru, a oedd oll wedi rhoi cyflwyniadau ar ystod o feysydd yn ymwneud gyda chydraddoldeb a hawliau dynol.

Rydym yn datblygu cynlluniau ar hyn o bryd gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Coleg Brenhinol Nyrsio, ac Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant yn Ysgol Gyfraith Hilary Rodham Clinton ym Mhrifysgol Abertawe. At hyn, rydym, wedi dechrau darparu Hyfforddiant Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn partneriaeth gyda Diverse Cymru.

Ym Medi 2021, roedd Ymddiriedolwyr wedi ymrwymo bod Adferiad Recovery yn dod yn Fudiad Sy'n Atgyfnerthu Hawliau. Bydd y rhaglen hon yn cael ei darparu dros y tair blynedd nesaf ac yn ceisio:

- **Datblygu sylfaen o werthoedd ac ymddygiad ar draws y mudiad**
- **Addysgu a chefnogi ein staff a'n gwirfoddolwyr**
- **Ymgysylltu gyda mudiadau eraill yn y maes er mwyn sicrhau bod Adferiad Recovery yn cael ei weld fel mudiad ar gyfer pawb**
- **Eirioli, siarad ar ran eraill a'n herio gwahaniaethu neu anfantais o unrhyw fath ym mhob dim a wnawn.**

**Yn 2010, sefydlwyd y Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn mynd i'r afael ag anfantais a gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gwneud hi'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn person ar sail un o'r naw nodwedd warchodedig ganlynol;**



# Ein Haelodau

**Rydym yn fudiad sydd yn cael ein harwain gan aelodau ac mae ein haelodau yn hynod bwysig i ni. Barn a dymuniadau ein haelodau sydd yn llywio ein Hymddiriedolwyr, sydd wedyn yn cyfarwyddo ein bwrdd o gyfarwyddwyr a'n gosod y**

## Pam dod yn aelod?

Mae dod yn aelod o Adferiad Recovery yn golygu eich bod yn medru cymryd rhan yn y gwaith o lywio dyfodol gwasanaethau yn lleol, ar draws Cymru a'r DU. Er enghraifft, mae Adferiad yn cael ei gynrychioli ar nifer o grwpiau strategol yng Nghymru a'r DU sydd yn cynrychioli lleisiau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gwrando ar Adferiad Recovery, ond mae mwy o aelodau yn golygu mwy o awdurdod a mwy o ddylanwad.

## Beth yw'r gost?

Nid oes rhaid talu am aelodaeth ond byddem yn croesawu unrhyw gyfraniad yr ydych yn medru gwneud tuag at wireddu uchelgais yr elusen, boed fel taliad un-tro neu fel taliadau cyson



## Beth fyddaf yn derbyn?

### Cefnogaeth gan eraill

Drwy rwydweithiau lleol Adferiad Recovery ar draws Cymru, mae yna gefnogaeth, help ymarferol a'r cyfle i rannu profiadau, gan wneud ffrindiau newydd ac ymgyrchu. Mae'r aelodaeth yn dal y rhwydweithiau ynghyd ac yn rhoi cyfle i'r sawl sydd yn cymryd rhan i leisio eu barn ynglŷn â sut ydym yn symud ymlaen.

### Help ymarferol

Mae Adferiad Recovery yn cynnig ystod eang o wasanaethau ar gyfer y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl, caethiwed, problemau sydd yn cyd-ddigwydd, ac ar gyfer eu teuluoedd a gofalwyr.

### Diwrnodau hyfforddi a chynadleddau

Mae Adferiad Recovery yn cynnig ystod o ddiwrnodau hyfforddi a chynadleddau sydd yn aml am ddim i aelodau.

### Gwybodaeth

Rydym yn cyhoeddi ystod o daflenni, pamffledi a llyfrynnau o safon ar nifer o destunau, gan gynnwys y triniaethau diweddaraf, hawliau, budd-daliadau, materion tai ac yn y blaen. Rydym hefyd yn hysbysu aelodau o'r hyn sydd yn digwydd drwy gyfathrebu'n gyson.

### Llais

Mae aelodau yn cael y cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth o'n cenhadaeth - a chodi proffil Adferiad; er enghraifft, mae stondin gennym bob blwyddyn yn Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae Aelodau Sy'n Fuddiolwyr hefyd yn medru ethol ein Hymddiriedolwyr o dan gyfansoddiad Adferiad Recovery, sydd yn golygu bod pobl sydd yn derbyn ein gwasanaethau yn llywio'r tîm o staff sydd yn eu darparu.

**448**

**Aelodau ar hyd a lled Cymru a Lloegr**

**Aelodau Cyswllt sy'n rhan o Dîm Staff Adferiad**

**654**

**Cynnydd o 27% yn yr Ymgysylltiad**

**Aelodau yn y chwarter olaf**

# Ein Staff

**Ased mwyaf gwerthfawr Adferiad Recovery yw'r staff, sydd yn cael ei gydnabod fel rhywbeth hanfodol i swyddogaethau mewnol y mudiad a'i wasanaethau gweithredol.**

Mae darparu gwasanaethau yn llwyddiannus i'w briodoli'n bennaf i lefel uchel o ffactorau mewnol fel hyfforddiant priodol, rheoli personél, ansawdd, systemau gwybodaeth, diogelu ac iechyd a diogelwch o fewn Adferiad Recovery. Mae staff Adferiad Recovery wedi derbyn hyfforddiant Diogelu a Thrais a Cham-drin yn y Cartref yn ystod y flwyddyn ac wedi eu cefnogi gan y tîm Diogelu er mwyn adnabod a rheoli unrhyw bryderon diogelu yn briodol a'n effeithiol.

## Datblygu'r Gweithle

Mae'r flwyddyn gyntaf wedi bod yn flwyddyn gyffrous ar gyfer y ddarpariaeth datblygu'r gweithlu o fewn Adferiad. Mae uno'r elusennau yma wedi bod yn hynod gyffrous ar gyfer y rhan yma o'r mudiad gan ei fod wedi dwyn ynghyd ystod eang o arbenigedd gydag amryw o hyfforddwyr o gefndiroedd gwahanol. Y ystod ein blwyddyn gyntaf, roeddem wedi ceisio cynnal y berthynas waith dda sydd gennym gyda'r partneriaid allanol a chynnig ystod gadarn o gyrsiau ar gyfer staff a gwirfoddolwyr. Mae'n amlwg bod Adferiad Recovery yn meddu ar ystod eang o dalent o fewn y timau sydd yn arbenigwyr yn eu maes ac mae wedi bod yn bleser i ddatblygu ychydig o'r dalent yma er mwyn cynnig darpariaeth hyfforddi fwy cynhwysfawr.

*"datblygwyd strategaeth newydd ar gyfer datblygu'r gweithlu a bydd yn cael ei gweithredu o fewn y flwyddyn nesaf."*

Rydym wedi manteisio ar y cyfleoedd i ddysgu mewn sawl amgylchedd fel digwyddiadau dysgu wyneb i wyneb, cymwysterau coleg, dysgu ar-lein sydd yn medru cael ei gwblhau yn hyblyg a hyfforddiant arbenigol drwy sianeli fel Zoom a Teams.
Un o gyraeddiadau Adferiad Recovery eleni o ran hyfforddiant yw gweithio ag unigolion sydd wedi neu wrthi yn derbyn y gwasanaeth a'n cyd-ddarparu'r hyfforddiant yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u profiad. Er enghraifft, roedd un sesiwn hyfforddi wedi ei gynnal ar y cyd gyda chyn-ddefnyddiwr steroidau a gweithiwr sydd yn cyfnewid nodwyddau, a hynny er mwyn creu hyfforddiant Cyffuriau Sy'n Gwella Delwedd a Pherfformiad (IPED), sydd wedi ei gynnig i staff ar draws y mudiad. Roedd yr adborth o'r hyfforddiant yma mor bositif fel y bydd y model yn cael ei ail-adrodd ar draws y meysydd eraill.

*"Mae Adferiad Recovery yn gweithio tuag at ddod yn ganolfan ddysgu gydnabyddedig ag Agored Cymru"*

Yn ogystal â staff yn cael mynediad at raglen hyfforddi fwy amrywiol, datblygwyd strategaeth newydd
ar gyfer datblygu'r gweithlu a bydd yn cael ei gweithredu o fewn y flwyddyn nesaf. Pwrpas hyn yw datblygu sgiliau'r staff, adnewyddu gwybodaeth a datblygu'n broffesiynol gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth mwy dygn i'r unigolion sydd yn defnyddio'r gwasanaeth.

## Beth yw'r cam nesaf ar gyfer Datblygu Gweithlu Adferiad Recovery?

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd tîm datblygu gweithlu Adferiad Recovery yn parhau i gynyddu'r nifer o gyrsiau arbenigol sydd yn cael eu darparu'n fewnol gyda'r nod o ddatblygu mwy o 'hyrwyddwyr' ac arbenigwyr mewnol, a'n cynyddu'r nifer o hyfforddwyr sydd yn medru rhannu eu profiadau a'u gwybodaeth. Mae Adferiad Recovery yn gweithio tuag at ddod yn ganolfan ddysgu gydnabyddedig ag Agored Cymru a fydd yn cynnig mwy o sicrwydd o ran ansawdd yr hyfforddwyr a'n cynnig y cyfle i ddysgwyr i ennill cymwysterau wrth iddynt ddysgu. Mae'r tîm datblygu gweithlu yn mynd i ddechrau gweithio ar 'gwrs anwytho' ar gyfer yr holl staff' a fydd yn rhoi cyfle i staff sydd newydd eu recriwtio i ddysgu o'r eiliad y maent yn dechrau ar eu taith o fewn y mudiad.

# Tystlythyrau

*Pobl ddilys, adborth dilys*

**Beth ydych yn ei fwynhau fwyaf o ran gweithio ag Adferiad?**



## Andi James

*"Gweithio fel rhan o dîm gwych, ac roedd gweld y gwahaniaeth y mae ein gwaith yn medru gwneud i iechyd a lles cleientiaid yn cynnig cymaint o bleser"*

## Kirsty Thomas

*"Y bobl. Mae amser gan bawb ar gyfer ei gilydd. Rydym oll yn rhannu'r nod o ganiatáu ein cleifion i wneud pethau."*





## Alexis Thorne

*"Gweithio gyda chydweithwyr gwych sydd wedi dod yn ffrindiau da. Cwrdd â'r cleifion pan eu bod yn dod atom, yn gweld y gwahaniaeth yn eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol a'u pryd a gwedd wrth iddynt adael."*

*mewn rhai achosion, mae lluniau ac enwau wedi eu newid er mwyn diogelu hunaniaeth unigolion

**1939** o Gyrsiau Newydd Wedi'u Cwblhau drwy iHasco

**1176** Wedi'u Cwblhau drwy Social Care TV

Byddai **90%** o Weithwyr Yn Sicr yn Argymell yr Hyfforddiant

Mae **100%** o staff wedi Cael Cynnig Hyfforddiant ar gyfer eu rôl

# Ein Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol i'n llwyddiant ac mae dwsinau o bobl gennym yn helpu ein mudiad gyda phob dim, o'r gwaith ar y rheng flaen i'r swyddi hanfodol hynny yn y cefndir. Mae ein gwasanaethau yn ddibynnol ar ymdrechion a haelioni ein gwirfoddolwyr mewn nifer o swyddi gan gynnwys gweinyddiaeth, arlwyo, gyrru, cymorth gyda digwyddiadau, codi arian, garddio, a mentora cymheiriaid. Mae'r gefnogaeth gan wirfoddolwyr wedi parhau i dyfu yn y flwyddyn ddiwethaf ac yn cynyddu eto ar ôl y pandemig. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein gwirfoddolwyr wedi cael effaith sylweddol ar y gwasanaethau yr ydym yn darparu. Mae mwy na 70 o bobl wedi gwirfoddoli i weithio i ni, gyda mwy na 20 o'n gwasanaethau ar draws Adferiad yn elwa o'u cefnogaeth. Y cynllun gwirfoddoli mwyaf poblogaidd yw'r gwasanaeth Oedolyn Priodol sydd yn cefnogi pobl fregus sydd wedi eu harestio yn ystod eu cyfweliadau gyda'r heddlu a'r gweithdrefnau ffurfiol eraill. At hyn, rydym hefyd wedi ffurfio perthynas dda gyda phrifysgolion ar draws Cymru, gan roi'r cyfle i fyfyrwyr i gael profiad gwerthfawr yn eu meysydd dysgu. Mae un o'r trefniadau yma gydag Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd wedi ei groesawu gan diwtoriaid a'r corff myfyrwyr. O ganlyniad, mae'r cynllun wedi ei adnewyddu ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 - 2023.

Rydym yn ddiolchgar iawn am gyfraniadau ein gwirfoddolwyr, ac rydym yn mynd i barhau i fuddsoddi yn yr adnodd amhrisiadwy yma yn y dyfodol.

Mae Adferiad Recovery yn falch ein bod yn meddu ar y statws Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr. Mae'r nod barcud anrhydeddus yma yn amlygu ein hagwedd at wirfoddolwyr a'n cael ei gefnogi gan brosesau safon uchel sydd yn gwneud Adferiad Recovery yn un o'r ychydig ddwsinau o fudiadau yng Nghymru sydd yn gymwys i ddefnyddio'r bathodyn Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr.



# Blwyddyn mewn Rhifau

**O'r 1af Ebrill 2021, roedd CAIS, Hafal, WCADA ac Adferiad Recovery CIO wedi dod at ei gilydd i greu Adferiad Recovery. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur i ni ac felly, dyma drosolwg o'n perfformiad!**

**138** cyfanswm gwasanaethau

Gwasanaethau mewn **22** Sir

**24** o wasanaethau newydd/ estynedig

**76** o wirfoddolwyr yn cefnogi g wasanaethau

**15,916**
O gleientiaid wedi eu cefnogi eleni'n unig

**415,000**
yn ymweld â Twitter

**258,300**
wedi ymweld â'r wefan

**32,000**
o ddilynwyr cyfryngau cymdeithasol

Wedi ymgysylltu
**100,000**
o weithiau gyda chleientiaid

Mae hyn yn golygu ymgy-sylltu bob **5 munud**

Cyfathrebu gyda
**1,847,600+**
o bobl drwy gyfrwng y cyfryngau cymde-ithasol

**246**
aelod o staff newydd

Gwerth
**£2,700,000**
o wasanaethau newydd

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gwirfoddolwyr wedi ymrwymo
**4,467**
o oriau o'u hamser i Adferiad

**1709**
o bobl wedi eu hatgyfeirio at wasanaethau y llynedd

**9.6**
o atgyfeiriadau bob diwrnod

# Ein Gwasanaethau

**Dros y flwyddyn, mae Adferiad Recovery wedi darparu 138 o gontractau ar gyfer comisiynwyr ym meysydd llywodraeth, iechyd, awdurdodau lleol ac eraill ac mae'n darparu ystod eang o ymyriadau ar gyfer unigolion sydd mewn angen gan gynnwys:**

- *Cymorth ar gyfer iechyd meddwl*
- *Cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau*
- *Help gyda diweithdra*
- *Cymorth gyda phlant a phobl ifanc*
- *Cymorth ar gyfer gofalwyr a llawer iawn mwy!*

## Ble mae ein gwasanaethau


**32** Gogledd Cymru

**13** Cymru Gyfan

**16** Canolbarth Cymru

**1** Sir Gaerhirfryn

**76** De Cymru



## Rwy'n Medru Gweithio

Mae 'Rwy'n Medru Gweithio' yn wasanaeth a gomisiynwyd yn wreiddiol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y sawl sydd yn meddu ar gyflyrau iechyd meddwl cymedrol i ganolig ac yn chwilio am swyddi. Yn wreiddiol, comisiynwyd y gwasanaeth tan 31ain Mawrth 2020, ac mae wedi ei ymestyn i mewn i 2022/2023.

Yn 2021/2022, roeddem wedi derbyn 312 o atgyfeiriadau, yn darparu bron i 2,000 o oriau o gymorth a'n sicrhau 287 o ganlyniadau cyflogaeth, ac mae'r gwaith hwn yn amlygu arbenigedd Adferiad yn y maes hwn ond yr angen hefyd i bobl i ddod o hyd i ffyrdd adeiladol a gwerth chweil i gyfrannu at gymdeithas os yn bosib.



*"Ers dod i gysylltiad gyda 'Rwy'n Medru Gweithio', rwyf wedi derbyn cynnig swydd. Mae'r rhagolygon yn fwy gobeithiol ac rwyf yn teimlo'n optimistaidd am fy ngallu a'm potensial."*

**15**
*o Gontractau Cymorth Tai wedi eu darparu eleni*

*Cymorth wedi'i darparu i fwy na*
**400**
*o gleientiaid*

## Grant Cymorth Tai

Yn ystod y flwyddyn, mae Adferiad Recovery wedi darparu 15 o gontractau Cymorth Tai yn Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Wrecsam, Caerdydd, Powys, Sir Gâr, Pen-y-bont, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro. Mae mwy na 70 o gleientiaid wedi elwa o'r gwasanaeth llety â chymorth o fwy na 40 eiddo symud ymlaen. Rydym hefyd wedi darparu contractau cymorth lle bo'r angen i fwy na 400 o gleientiaid yn eu cartrefi eu hunain.

## Trais yn Erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (TYEMCDATR)

Roedd Adferiad Recovery wedi llwyddo yn 2021/2022 i sicrhau cyllid grant cyfalaf o'r Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu i brynu ac ailwampio eiddo i gefnogi unigolion sydd wedi eu heffeithio gan TYEMCDATR. Yn ogystal â phrynu'r eiddo, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cytuno i ariannu'r costau cymorth refeniw HSG. Mae'r prosiect wedi ei ddarparu mewn partneriaeth gyda Hafan Cymru.

TYEMCDATR

Gwent Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence
Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent

# Ein Gwasanaethau

## Cyfle Cymru

Mae Cyfle Cymru yn wasanaeth sydd yn helpu pobl gyda materion sy'n ymwneud gyda chamddefnyddio sylweddau a/neu gyflyrau iechyd meddwl i mewn i'r byd gwaith, addysg neu hyfforddiant. Mae Cyfle yn cael ei ddarparu gan aelodau o Gonsortiwm DACW (Developing A Caring Wales): Adferiad Recovery, Barod, Kaleidoscope a Safer Wales.

Wedi ei gefnogi gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd, mae Gwasanaeth y Di-Waith gan Lywodraeth Cymru yn rhaglen sydd yn adeiladu ar ein llwyddiant aruthrol yn cynnig ymyriadau mentora cymheiriaid effeithiol. Drwy fentora, hyfforddiant, cymorth gyda chyflogaeth a gwirfoddoli, mae Cyfle Cymru yn ceisio helpu pobl sydd â phrofiad o gamddefnyddio sylweddau a thrafferthion iechyd meddwl i ddod o hyd i swydd neu'n symud yn agosach at gyflawni hyn.

*1,272 wedi eu cefnogi i mewn i swyddi*

Mae mentora cymheiriaid hefyd yn ddull cost-effeithiol. Mae'r arolwg diweddaraf gan Cyfle Cymru o ran Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi yn dangos bod – ar gyfer pob £1 o werth sy'n cael ei fuddsoddi yn y gwasanaeth – mwy na £6 yn cael ei fuddsoddi yn ôl yn economi Cymru. Ers ei lansio, mae gwasanaeth mentora cymheiriaid Cyfle Cymru wedi creu mwy na £6,174,000 mewn gwerth!

*2,495 wedi dod o hyd i swydd neu'n elwa o waith gwirfoddoli*

Ers dechrau'r prosiect yn Awst 2016 hyd at ddiwedd Mawrth 2021, mae Cyfle Cymru wedi denu 13,000 o gofrestriadau ar draws y pum ardal. Mae mwy na 268,570 o oriau o gymorth wedi eu cynnig, gyda bron i15,000 o gymwysterau achrededig a heb eu hachredu wedi eu dyfarnu ers dechrau'r rhaglen a 1,272 o bobl wedi eu cefnogi i mewn i fyd gwaith, gyda 2,495 wedi cael profiad gwaith neu brofiad yn gwirfoddoli.

*Mwy na 268,570 o oriau o gymorth wedi'u darparu*

Roeddem wedi llwyddo i ymestyn y gwasanaeth tan Awst 2022. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ail-gomisiynu ac mae'n flaenoriaeth i Adferiad Recovery i barhau gyda'r gwaith hwn o safbwynt cenhadaeth a dyfodol y tîm o staff, gyda nifer ohonynt wedi bod gyda ni ar hyd y daith gyda'r prosiect.

## Gwasanaethau i Bobl Ifanc

Mae Adferiad Recovery yn darparu ystod o wasanaethau pobl ifanc i gleientiaid gyda phrofiad o'r system cyfiawnder troseddol, afiechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, a hynny dros Gymru. Mae ein Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc Powys ar gael i bobl ifanc, sydd fel arfer o dan 18 mlwydd oed ac yn profi problemau gyda chamddefnyddio sylweddau, a'n gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis sydd ar gael ar draws Cymru ac yn cefnogi pobl ifanc a'u brodyr/chwiorydd drwy gyfnodau sydd yn medru bod yn ofidus ar gyfer y teulu cyfan.

Drwy ein partneriaeth gyda Mental Health UK, rydym wedi darparu 419 o sesiynau cymorth drwy ein rhaglen Bloom ac Eich Dygnwch i bobl ifanc a'r ysgolion a'r colegau y maent yn mynychu. Roeddem hefyd wedi datblygu rhaglen yn 2020/2021 i gefnogi pobl ifanc sydd wedi eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl ac rydym wrth ein bodd i barhau gyda hyn yn 2021/2022.

## Rhaglenni ar gyfer Cyn-Filwyr

Mae ein gwaith gyda chyn-filwyr yn parhau ar draws Cymru drwy ddarparu cymorth uniongyrchol a mentora cymheiriaid, a hynny drwy'r rhaglen 'Change Step' a thrwy gefnogi grwpiau a mudiadau lleol fel Partner Strategol yn 'Rhaglen Llwybrau Positif' Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog sydd yn ariannu prosiectau sydd yn datblygu a'n cynnal gweithgareddau sydd yn cefnogi iechyd meddwl a lles cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog, gan annog cyn-filwyr i fynd allan a bod yn egnïol. Fel rhan o'r rhaglen hon, mae Adferiad Recovery yn cefnogi mudiadau llai i wneud cais am gyllid ar gyfer prosiectau ac maent yn cefnogi ymgeiswyr i gyflawni eu hamcanion.

## Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol

Mae Adferiad Recovery yn parhau i weithio yn y gofod heriol hwn drwy weithio gyda gwasanaethau lleol fel Ty'n Rodyn, Tŷ Adferiad, a'n gwaith gydag Ymddiriedolaeth St. Giles, a thrwy ein Gwasanaeth Oedolyn Priodol i ardaloedd Heddlu De Cymru, Dyfed Powys a Gwent.

## Gwasanaethau Cleifion Mewnol a Phreswyl

Mae Hafan Wen, ein canolfan ddadwenwyno a thriniaeth sydd wedi ei hadeiladu'n bwrpasol, a'i lleoli ar gampws Ysbyty Maelor Wrecsam, yn darparu gwasanaethau i gleifion o ogledd Cymru drwy drefniant hirdymor gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae Hafan Wen, sydd hefyd yn cael ei rheoli fel uned meddygol arbenigol, yn darparu cymorth dwyster uchel i gleifion o ardaloedd ar draws y DU a thu hwnt.

Mae Salus, ein canolfan ddadwenwyno a thriniaeth gyda thir hyfryd yn Sir Gaerhirfryn, yn parhau i ddarparu cymorth safon uchel ac rydym yn bwriadu datblygu'r safle yma yn 2022/2023 er mwyn cynyddu'r capasiti, a hynny ar ôl llwyddo gyda nifer o dendrau i ddarparu gofal i gleifion mewnol ar ran awdurdodau yn Lloegr.

Agorodd Parkland Place yn 2018 ac mae'n perfformio'n dda o ran contractau statudol a chleientiaid sy'n talu'n breifat.

Mae Canolfan Adferiad Gellinudd, ein hysbyty iechyd meddwl ym Mhontardawe, wedi newid ffocws yn 2021/2022 gan ddod yn wasanaeth ar gyfer menywod sydd ag anghenion cymhleth ac amrywiol. Mae'r nifer sydd yno dal yn isel ond rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cynyddu yn 2022/2023 gan fod y Ganolfan yn cynnig gwasanaeth eithaf unigryw.


Ar draws ein Gwasanaethau Cleifion Mewnol a Phreswyl, rydym wedi cefnogi mwy na 960 o gleientiaid ac wedi darparu gwely am 13,478 o nosweithiau.

## Ty Adferiad

Mae Tŷ Adferiad yn brosiect llety â chymorth gyda chwe gwely, a hynny ar gyfer menywod sydd ag anghenion cymhleth. Wedi ei leoli ym Mhorthmadog, mae'n gweithredu 24 awr y diwrnod, 7 diwrnod yr wythnos a dyma'r unig wasanaeth o'i fath yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn ceisio cefnogi trigolion gyda nifer o faterion fel tai, cyflogaeth, addysg, ymddygiad troseddu ac arwahanrwydd cymdeithasol. Mae'r cymorth yn cael ei nodi a'i ddarparu gan ddefnyddio dulliau integredig sydd yn canoli ar y person, gan gydlynu gyda darparwyr tai lleol ac asiantaethau lleol er mwyn ychwanegu at yr hyn sydd yn cael ei gynnig.

## Noddfeydd Argyfwng

Mae Adferiad Recovery yn darparu nifer o'r gwasanaethau yma gan gynnwys y rhai yn Aberystwyth ac Abertawe, ac mewn partneriaeth gyda Mind Llanelli yn Llanelli. Mae Noddfa Abertawe yn cynnig cymorth i'r bobl hynny sydd mewn argyfwng rhwng 6pm a 3am saith diwrnod yr wythnos ac mae Noddfa Aberystwyth hefyd yn cynnig gwely argyfwng i bobl sydd o bosib angen cymorth ychwanegol dros nos.




Roedd y Dirprwy Weinidog ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles wedi ymweld gyda Noddfa Abertawe yn haf 2021 ac wedi siarad gyda phobl a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth, gan glywed sut y mae'r gwasanaeth wedi eu helwa'n sylweddol ac wedi eu helpu i leihau eu dibyniaeth ar wasanaethau brys statudol. Mae Noddfa Abertawe, fel y gwasanaeth mwyaf dwys o'i fath yng Nghymru, wedi derbyn 1,287 o atgyfeiriadau hyd yma ac mae staff wedi gwneud 1,023 o alwadau cymorth ac mae mwy na 100 o gleientiaid mewn argyfwng acíwt wedi derbyn gwasanaeth wyneb i wyneb uniongyrchol, gyda phawb yn canmol y gwasanaeth.

# Datblygiadau Newydd

## Uchafbwyntiau 2021 - 2022

**Darparu Gwasanaeth Llywio Cymdeithasol ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghaerdydd, gan weithio mewn partneriaeth gyda Grŵp Bancio Lloyds**

Lansio peilot Prosiect Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis yng Nghwm Taf

Lansio prosiect Tai yn Gyntaf newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan gynnig cymorth dwys i'r sawl sydd ag anghenion cymhleth fel eu bod yn medru sicrhau tenantiaeth.

Cadw contractau pwysig fel ein Llety â Chymorth Camddefnyddio Sylweddau yn Sir Fynwy (Ty Northgate)

Darparu cymorth sy'n ymwneud gyda thai i Blant a Phobl Ifanc ym Mhowys

**Llywodraeth Cymru yn ymestyn ein Prosiectau Adferiad COVID-19**

Cadw ein lle ar y Fframwaith Cydweithredu Cenedlaethol ar gyfer Ysbytai Iechyd Meddwl i Oedolion

**Datblygu ein harbenigedd fel y dengys y prosiect 'Beat the Odds', lle'r ydym yn gweithio gyda Gamble Aware ar ddau brosiect newydd sydd werth mwy nag £1 miliwn.**

Lansio Gwasanaeth Noddfa Argyfwng newydd yn Aberystwyth

Gweithio gyda'r Cyfamod Lluoedd Arfog ar y Rhaglen Lleoedd, Llwybrau a Phobl yn cynnig cymorth i gyn-filwyr yng Nghymru.

# Ffocysu ar y Gwasanaeth

## Tai yn Gyntaf

Roedd Adferiad Recovery wedi llwyddo o ran tendr Tai yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr, gyda chymorth yn dechrau ar 1af Ionawr 2022. Mae gwasanaeth Tai yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr yn wasanaeth newydd i Adferiad. Rydym yn gweithio'n agos gyda landlordiaid ac awdurdodau lleol i helpu pobl i ddod o hyd i gartref parhaol yn gyflym. Mae yna gymorth parhaus wedyn yn cael ei gynnig er mwyn eu helpu i ymgartrefu ac aros yn eu cartref newydd. Ym mhob un achos bron, bydd ein cleientiaid yn fregus ac yn aml wedi bod yn cysgu ar y strydoedd.

O fewn y misoedd cyntaf ar ôl darparu'r gwasanaeth, roedd Adferiad wedi llwyddo i sicrhau mwy o gyllid i ychwanegu at y ddarpariaeth yn ein contract er mwyn darparu Tai yn Gyntaf ar gyfer Ieuenctid, sydd yn cefnogi plant a phobl ifanc bregus i symud i lety diogel.

Mae anghenion cymorth y defnyddwyr gwasanaeth yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i:

- bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol
- problemau iechyd meddwl/neu iechyd meddwl sydd heb dderbyn diagnosis
- problemau yn camddefnyddio sylweddau
- problemau sy'n cyd-ddigwydd

# Ein Hymgyrchoedd
# Siarad ag Adferiad

Roedd ein gwaith ymgyrchu yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu yn ffocysu ar sicrhau bod y mudiad newydd yn cael ei lywio gan ein buddiolwyr er mwyn gosod y cyfeiriad ar gyfer y mudiad dros y blynyddoedd nesaf. Roedd ein noddwr, Michael Sheen, wedi arwain y broses, "Siarad ag Adferiad", lle'r oeddem wedi cynnal sgwrs ar-lein genedlaethol a 24 digwyddiad lleol a oedd wedi cynnwys ein holl randdeiliaid ar draws Cymru a thu hwnt. Mae'r ymgyrch wedi rhoi'r uchelgais, y gwerthoedd a'r heriau ymgyrchu yr ydym yn parhau i ddatblygu yn 2022/2023. Roedd y gwaith o ddatblygu strategaeth y mudiad wedi dechrau ar ôl yr ymgyrch gyda strategaeth tair blynedd 2022-2025 i'w chymeradwyo gan Ymddiriedolwyr yn 2022.

**Roedd yr ymgyrch "Siarad ag Adferiad" wedi ymgysylltu miloedd o randdeiliaid gan gynnwys mwy na 1000 o aelodau a 5000 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sy'n defnyddio gwasanaethau Adferiad Recovery. Pan ofynnwyd pa flaenoriaethau y dylai Adferiad Recovery eu mabwysiadu yn y blynyddoedd nesaf, dywedodd y sawl a fu'n cymryd rhan y dylai'r elusen;**


- **Datblygu gwasanaethau holistaidd**
- **Bod yn weithle y mae pobl yn dewis**
- **Bod yn llais ar ran pobl sydd wedi eu heffeithio gan afiechyd meddwl a chaethiwed**

**Pan ofynnwyd pa wasanaethau penodol y dylai Adferiad Recovery eu datblygu yn y blynyddoedd nesaf, dywedodd y sawl a fu'n cymryd rhan y dylai'r blaenoriaethau gynnwys;**

- **Gwasanaethau cyfeillio a grwpiau cymdeithasol**
- **Gwybodaeth a chyngor**
- **Gwasanaeth i bobl sydd â sawl diagnosis ar yr un pryd**

**Roedd y neges gyffredinol gan randdeiliaid yn glir, gan amlygu bod;**

- **Angen sicrhau bod yr holl wasanaethau ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, caethiwed neu sy'n cyd-ddigwydd, yn cael eu hintegreiddio, er mwyn medru cynnig y cymorth gorau posib**
- **Mae angen hawliau gwell ar gyfer grŵp cleient yr elusen fel eu bod yn derbyn gwasanaeth sydd yn amserol, yn derbyn adnoddau a'n ffocysu ar gleifion**
- **Mae angen mynd i'r afael ar frys gyda'r stigma sydd yn effeithio ar gaethiwed, iechyd meddwl a diagnosis sydd yn cyd-ddigwydd**



## Ein Noddwr - Michael Sheen

# Ein Hymgyrchoedd Dynol o Hyd


Y llynedd, roeddem wedi cynnal ein hymgyrch 'Only Human' a oedd yn ceisio mynd i'r afael gyda'r stigma sydd yn gysylltiedig gyda chamddefnyddio sylweddau (fel alcohol, sigaréts neu gyffuriau) a chaethiwed ymddygiadol (fel gamblo, chwarae gemau neu siopa). Yn cael ei harwain gan bobl sydd â phrofiad o hyn, roedd yr ymgyrch yn ceisio codi ymwybyddiaeth am y canlyniadau niweidiol a ddaw o'r stigma sydd yn ymwneud gyda chaethiwed gan annog pobl i gwestiynu eu credoau am gaethiwed a'r bobl sy'n ei brofi.


Mae pobl sydd yn dioddef caethiwed yn aml yn cael eu labelu neu'u hystrydebu yn annheg ac mae hyn yn creu rhwyg rhyngddynt hwy a'r sawl na sydd yn cael eu stigmateiddio a'n byw yn y gymuned. Mae'r rhwyg yma yn arwain at wahaniaethu a stigma niweidiol ac yn medru cael ei droi yn deimladau mewnol fel ymdeimlad o warth, hunanwerth isel neu fod yn ddiwerth. Yn anffodus, mae hunan-stigma yn rhwystr sylweddol sydd yn eu hatal rhag chwilio am driniaeth ac mae unigolion yn teimlo nad oes dewis ganddynt ond encilio i mewn i'w caethiwed ac mae'r cylch dieflig yn parhau. Mae Adferiad Recovery wedi ymrwymo i herio'r ffordd y mae cymdeithas yn ystyried caethiwed drwy greu deialog, chwalu'r stigma sydd yn ymwneud gyda chaethiwed a chefnogi unigolion i oresgyn eu cyflyrau.


Drwy gydol yr haf, roedd timau lleol Adferiad Recovery wedi cynnal 23 digwyddiad ymgyrch ar draws Cymru ac yn Sir Gaerhirfryn, gan roi cyfle i bobl i ymgysylltu gyda'r ymgyrch. Fel rhan o'r ymgyrch, roeddem wedi datblygu ein harolwg 'Only Human' er mwyn casglu gwybodaeth am brofiad pobl o fyw gyda chaethiwed sydd yn ymwneud gyda stigma gan ofyn am awgrymiadau ynglŷn â sut y dylid mynd ati o oresgyn y stigma a chefnogi pobl sydd yn cael trafferth gyda chaethiwed. Lansiwyd yr ymgyrch 'Only Human' yng Nghastell-nedd Port Talbot ar 11eg Mai 2022 gan orffen yn nigwyddiad Iechyd Meddwl y Byd blynyddol Adferiad Recovery yn y Senedd ar 13eg Hydref.

DYNOL O HYD

Nid yw caethiwed yn ein diffinio ni.







# Ein Partneriaid

Mae perthynas helaeth gan yr Elusen gyda phartneriaid a rhanddeiliaid amrywiol wrth geisio cyflawni ei hamcanion elusennol ac er budd y grŵp cleient. Mae Adferiad Recovery yn gweithio ac yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol, Byrddau Cynllunio Ardal, yr Adran Waith a Phensiynau, comisiynwyr pobl ifanc, darparwyr rheoli troseddwyr, cymdeithasau tai, prifysgolion, colegau, ac elusennau amrywiol a chynghorau gwirfoddol gan gynnwys asiantaethau sydd yn darparu gwasanaethau i gyn-filwyr.

Mae Adferiad Recovery yn gweithio'n agos gyda Chynghrair ar gyfer Iechyd Meddwl Cymru a gyda Rethink, Mindwise (Gogledd Iwerddon) a Support in Mind yn yr Alban fel rhan o Mental Health UK (mae Prif Weithredwr Adferiad Recovery yn Ymddiriedolwr gyda MHUK) a gydag elusennau tebyg eraill ar draws Prydain ar faterion penodol a hefyd fel rhan o'r Gynghrair Iechyd Meddwl. Mae Adferiad Recovery yn aelod o'r 'Global Alliance for Mental Illness Advocacy Networks' (GAMIAN) ac yn cael ei gynrychioli ar y Bwrdd.

Mae Adferiad Recovery yn aelod o 'Developing a Caring Wales' (DACW), Consortiwm Cymreig sydd yn darparu ystod lawn o wasanaethau ar gyfer pobl sydd wedi eu heffeithio gan gamddefnyddio alcohol a chyffuriau a thrafferthion iechyd meddwl.

Mae partneriaeth gan Adferiad Recovery hefyd gyda Mind Cymru wrth ddarparu'r rhaglen Amser i Newid Cymru sydd yn herio, addysgu a'n mynd i'r afael gyda stigma a gwahaniaethu o ran iechyd meddwl. Bydd llwyddiant y rhaglen yn cael ei datblygu ymhellach yn 2022/2023 fel rhan o'n hymgyrch i herio'r stigma sydd yn ymwneud gyda chaethiwed



# Edrych Tuag at y Dyfodol

Wedi'i pandemig, mae yna arwyddion clir fod y system bresennol o ran darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU o dan bwysau difrifol. Tra bod yna gronfeydd ac adnoddau ychwanegol yn cael eu neilltuo ar gyfer y system, mae'r gallu i recriwtio staff, mynd i'r afael gyda'r pwysau cynyddol o chwyddiant, tlodi a chynnydd mewn prisiau tanwydd, ac annog pobl i gael cyswllt wyneb i wyneb, nawr yn cyflwyno heriau sylweddol i bawb ohonom. At hyn, mae effaith Brexit yn cael ei deimlo o safbwynt cyflogaeth a nawr yn fwy penodol o ran Adferiad Recovery, gyda'r diwedd ar Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd Cymru (ESF). Mae'r cyllid hwn wedi darparu cymorth sylweddol i'n buddiolwyr drwy Cyfle Cymru a rhaglenni Cynhwysiant Actif ac wedi arwain at nifer o bobl sydd yn cael profiad gwaith, addysg a hyfforddiant tra'n ymrymuso cleientiaid i newid eu bywydau a'n sicrhau annibyniaeth economaidd. Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r fath raglenni ond yn cydnabod bod rhaid i ni fod yn hyblyg a chwilio am ffynonellau amgen o gyllid er mwyn sicrhau bod ein cenhadaeth yn parhau. Mae Adferiad Recovery wedi ymrwymo i barhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r sector statudol a'r sector gwirfoddol wrth geisio hyrwyddo a gofalu am fudiadau ein grŵp cleient. Mae partneriaethau yn caniatáu Adferiad Recovery i:

- ***Ffurfio perthynas waith ar y cyd er mwyn datblygu ffyrdd o weithio a rennir***
- ***Cynyddu ymwybyddiaeth o Adferiad Recovery***
- ***Rhannu arferion gorau gyda mudiadau eraill yn y trydydd sector***

Bydd angen parhau i fuddsoddi yn ein partneriaeth gyda Mental Health UK, Gamian, a chynghreiriau eraill er mwyn sicrhau bod llais ein buddiolwyr yn cael ei glywed. Ar y cyfan, mae Adferiad Recovery yn ceisio atgyfnerthu ei sefyllfa drwy reolaeth weithredol ac ariannol darbodus. Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol, gofalgar ac ymroddedig i'r bobl hynny sydd angen help yr elusen.

Er mwyn atgyfnerthu annibyniaeth yr elusen o'r grŵp bach o gyllidwyr, mae'r elusen yn ceisio datblygu gwasanaethau na sydd yn cael eu comisiynu'n uniongyrchol ond sydd yn disgyn o fewn ei gylch gorchwyl. Mae mentrau yn cynnwys prynu eiddo i'w rhentu ar gyfer unigolion o dan anfantais, ehangu Mentrau Cymdeithasol CAIS a datblygu rhaglen er mwyn ailwampio eiddo.

Mae'r argyfwng costau byw a'r cynnydd mewn pris ynni yn mynd i gael effaith ar ein buddiolwyr a staff. Rydym wedi ymrwymo i ddod yn gyflogwr Sefydliad Cyflog Byw ar draws ein gwasanaethau a byddwn yn bwrw ymlaen gyda hyn yn 2022/2023. Byddwn hefyd angen ymgysylltu gyda phartneriaid sydd yn rhannu ein pryder am y rhai sydd mewn tlodi ac yn adeiladu ar Addewid Adferiad Recovery, sef na fydd neb o'n grŵp cleient angen bod ar ben eu hunain.

Yn ystod y pandemig, roedd Adferiad Recovery wedi dangos ein gallu i ffynnu mewn cyfnod o adfyd ac rydym yn credu'n gryf mai nawr yw'r amser i'r Elusen i ddatblygu, ymgysylltu gyda'r sector statudol a'r llywodraeth sydd o dan bwysau er mwyn cynnig ffyrdd o weithio sy'n canolbwyntio ar fuddiolwyr ac yn gost-effeithiol a'n ffocysu ar ganlyniadau.

# Adolygiad a Datganiadau Ariannol

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN AR 31 MAWRTH 2022

| Incwm a Gwaddolion sy'n dod o | Nodiadau | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm Cronfeydd 2022 | Cyfanswm Cronfeydd 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhoddion a Chymynroddion | 2 | 169,895 | - | 169.895 | 6,626 |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | | | | |
| Gwasanaethau Cymunedol | | 14,991,117 | 4,750 | 14,995,867 | 6,387,084 |
| Gwasanaethau Preswyl | | 7,135,576 | 65,365 | 7,200,941 | 3,391,480 |
| Canlyniad y Buddsoddiad | 3 | (7,684) | - | (7,684) | (9,268) |
| Incwm Arall | | 5,094,487 | 1,092,540 | 6,187,027 | 184,332 |
| **Cyfanswm** | | 27,383,391 | 1,162,655 | 28,546,046 | 9,960,254 |
| Gwariant ar | | | | | |
| **Gweithgareddau Elusennol** | 6 | | | | |
| Cyffredinol | | - | - | - | - |
| Gwasanaethau Cymunedol | | 13,379,058 | 10,817 | 13,389,875 | 5,662,794 |
| Gwasanaethau Preswyl | | 7,817,881 | 264,209 | 8,082,090 | 4,016,582 |
| Llywodraethiant | | 520,404 | - | 520,404 | 170,038 |
| **Cyfanswm** | | 21,717,343 | 275,026 | 21,992,369 | 9,849,414 |
| **Incwm net** | | 5,666,048 | 887,629 | 6,553,677 | 110,840 |
| **Enillion cydnabyddedig / (colledion) eraill** | | | | | |
| Enillion Actiwari ar gynlluniau buddion | | 549,000 | - | 549,000 | 49,000 |
| **Symudiadau net o ran cronfeydd** | | 6,215,048 | 887,629 | 7,102,677 | 159,840 |
| Cysoni'r cronfeydd | | | | | |
| Cyfanswm cronfeydd sy'n cael tynnu ymlaen | | 1,055,431 | 335,989 | 1,391,420 | 1,231,580 |
| **Cyfanswm cronfeydd sy'n cael cario ymlaen** | | 7,270,479 | 1,223,618 | 8,494,097 | 1,391,420 |

| | Nodiadau | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm Cronfeydd 2022 | Cyfanswm Cronfeydd 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | | | | |
| Asedau Diriaethol | 12 | 7,797,545 | 191,728 | 7,989,273 | 2,288,381 |
| Buddsoddiadau | 13 | 2 | - | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | | 7,797,547 | 191,728 | 7,989,275 | 2,288,383 |
| **Current Assets** | | | | | |
| Debtors | 14 | 3,666,260 | - | 3,666,260 | 1,627,511 |
| Cash at bank | | 4,187,860 | 1,031,899 | 5,219,749 | 2,514,754 |
| **Cyfanswm** | | 7,854,120 | 1,031,889 | 8,886,009 | 4,142,265 |
| **Credydwyr** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | 15 | (5,701,445) | 1 | (5,701,444) | (3,371,216) |
| **Asedau cyfredol net** | | 2,152,675 | 1,031,890 | 3,184,565 | 771,049 |
| **Cyfanswm yr asedau a'r dyledion cyfredol** | | 9,950,222 | 1,223,168 | 11,173,840 | 3,059,432 |
| **Credydwyr** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | 16 | (1,806,049) | - | (1,806,049) | 867,012 |
| **Darpariaethau ar gyfer dyledion** | | (925,694) | - | (925,694) | 334,000 |
| **Asedau pensiwn / (dyledion)** | 21 | 52,000 | - | 52,000 | 467,000 |
| **Asedau cyfredol net** | | 7,270,479 | 1,223,618 | 8,494,097 | 1,391,420 |
| **Cronfeydd** | 20 | | | | |
| Cronfeydd Anghyfyngedig | | | | 7,270,479 | 1,055,431 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | | | | 1,223,618 | 335,989 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd** | | | | 8,494,097 | 1,391,420 |